**Eitem ar yr agenda: 8**

**AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU**

**PANEL GWEITHREDOL**

22 EBRILL 2004

**DIRPRWYO PWERAU DROS DRO CYN Y CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL**

Adroddiad gan y Clerc

**Diben yr Adroddiad**

**1** I ddirprwyo pwerau yn ystod y cyfnod rhwng diwedd tymor aelodau presennol yr awdurdod tân hyd nes y cynhelir cyfarfod cyntaf yr awdurdod tân ar ôl yr etholiadau ym Mehefin.

**Cefndir**

**2** Oherwydd Gorchymyn Llywodraeth Leol (Diwrnod Cyffredin Etholiad) (Cymru) 2004, Rhif 218, bydd yr etholiadau llywodraeth leol yn cael eu cynnal ar 10 Mehefin 2004. Mae'r gorchymyn yn golygu y bydd cynghorwyr yn parhau yn eu swyddi tan y pedwerydd ddiwrnod ar ôl yr etholiadau h.y. ben bore ar ddydd Llun 14 Mehefin pan fydd y cynghorwyr sydd wedi cael eu hethol o'r newydd yn dod i'w swyddi. Bydd aelodau presennol yr awdurdod tân yn parhau yn eu swyddi tan 14 Mehefin yn yr un modd ond bydd dyddiad rhoi rhywrai yn eu lle yn dibynnu ar pa mor gyflym y bydd y cynghorau sir a'r cynghorau bwrdeistref sirol yn gwneud penodiadau yn unol ag erthyglau 12 a 13 o'r gorchymyn cyfuno. Ni fydd penodiadau o'r fath yn cael eu gwneud, o reidrwydd, yn ystod cyfarfodydd cyntaf y cynghorau newydd, yn enwedig os byddant yn rhan o'r cyfrifoldebau gweithredol a ddirprwywyd i Gabinetau.

**3** Cafodd y cadeirydd a'r is-gadeirydd eu hethol ar 16 Mehefin 2003. Mae Erthygl 17(2) o'r gorchymyn cyfuno yn darparu eu bod "i fod yn ddeiliaid eu swyddi am gyfnod o un flwyddyn o ddyddiad eu hethol" h.y. tan 16 Mehefin 2004. Fel canlyniad, hyd yn oed os bydd y cadeirydd a'r is-gadeirydd presennol yn cael eu hail-ethol fel cynghorwyr ac yn cael eu hail benodi'n aelodau o'r awdurdod tân gan eu cynghorau, ni allant ragdybio neu ailafael mewn unrhyw swyddi gyda'r awdurdod tân oni bai fod yr awdurdod tân yn gwneud penderfyniad i'r perwyl hwnnw yn ei gyfarfod.

**4** Mae ystyriaethau cyffelyb yn berthynol i'r Panel Gweithredol, y Pwyllgor Gwerth Gorau ayyb.

**5** Felly, rhwng dydd Llun 14 Mehefin a’r cyfarfod cyffredinol blynyddol y bwriedir ei gynnal ar ddydd Llun 19 Gorffennaf, nid oes peirianwaith wedi ei sefydlu ar gyfer gwneud unrhyw benderfyniad a fyddai’n arferol yn cael ei wneud gan aelodau etholedig i gael ei gymryd ganddynt. Bydd sefyllfa debyg yn codi unwaith bob pedair blynedd, yn sgil pob etholiad arferol i ethol cynghorwyr.

**6** Er y gellid, o bosibl, leihau’r bwlch hwn trwy newid dyddiad y cyfarfod cyffredinol blynyddol a’i gynnal ynghynt, ni ellir ei symud ymlaen rhyw lawer rhag ofn na fydd yr holl gynghorau wedi gwneud eu penodiadau.

**Cyngor**

**7** Mae angen sefydlu trefn ddirprwyo briodol i gwmpasu’r cyfnod ysbeidiol hwn fel y bo modd ymdrin ag unrhyw benderfyniad a fyddai fel rheol yn gyfrifoldeb i aelodau, ac nad oes modd rhesymol ei ohirio tan gyfarfod cyntaf yr awdurdod tân ar ôl yr etholiadau ym Mehefin. Byddai’r dirprwyaethau yn cwmpasu yr holl bwerau sy’n perthyn i aelodau, gan gynnwys y rhai a weithredir gan y Panel Gweithredol a’r cadeirydd a’r is-gadeirydd (ac a fyddai felly’n cynnwys, er enghraifft, bŵer y cadeirydd dan reol sefydlog 5(1) i alw cyfarfod arbennig o’r awdurdod tân).

**8** Byddai’n amhriodol i drefn ddirprwyo o’r fath roi pwerau gwneud penderfyniad i gynghorwr neu gynghorwyr yn unig gan nad oes unrhyw sicrwydd y bydd unrhyw un o’r aelodau presennol yn cael eu hail-ethol neu’n cael eu hailbenodi’n aelodau o’r awdurdod tân.

**Argymhelliad**

**9** Bod holl bwerau’r awdurdod tân, ei bwyllgorau a deiliaid ei swyddi yn cael eu dirprwyo i gadeirydd ac is-gadeirydd yr awdurdod tân a etholwyd ym Mehefin 2003 os yr ail-benodir y naill neu’r ddau ohonynt ar yr awdurdod tân neu os nad ail-benodir y naill na’r llall ohonynt, i’r Prif Swyddog Tân mewn ymgynghoriad gyda’r Clerc a’r Trysorydd. Y ddirprwyaeth hon i fod yn weithredol yn ystod y cyfnod rhwng 14 Mehefin 2004 tan gyfarfod cyntaf yr awdurdod tân yn dilyn yr etholiadau ar 10 Mehefin 2004, cyn belled ag y mae’r pwerau hynny’n berthynol i benderfyniadau na fyddai’n rhesymol eu gohirio tan ddyddiad y cyfarfod cyntaf hwnnw.